# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Ger y Nant**

**Treharris**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

04/03/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ger y Nant

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Values in Care Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 4 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 3 Awst 2023 |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb


Mae'r bobl sy'n byw yng nghartref Ger y Nant yn cael safon dda iawn o ofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae gan y bobl reolaeth dros eu bywydau eu hunain a chânt eu cefnogi a'u hannog i wneud dewisiadau. Mae'r gweithgareddau'n amrywiol ac wedi'u teilwra at anghenion a dewisiadau unigol y bobl. Mae'r cynlluniau personol yn drylwyr iawn ac yn cynnwys gwybodaeth fanwl am anghenion a nodau unigol y bobl i'r gweithwyr gofal. Maent hefyd yn ystyried y risgiau i iechyd a diogelwch y bobl ac yn nodi'r strategaethau ar gyfer cadw'r bobl yn ddiogel.

Caiff y gweithwyr gofal eu recriwtio'n ddiogel a chânt sesiynau goruchwylio a hyfforddiant yn rheolaidd. Mae'r gweithwyr gofal yn mwynhau gweithio yn y gwasanaeth, ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u gwerthfawrogi gan y tîm rheoli. Mae'r mesurau llywodraethu a sicrhau ansawdd yn gadarn. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd ac yn goruchwylio'r ddarpariaeth gofal yn dda.

Caiff yr amgylchedd ei gynnal a'i gadw i safon dda ac mae'n gyfforddus ac yn lân. Mae'r archwiliadau iechyd a diogelwch, ynghyd â rhaglen barhaus o waith cynnal a chadw ac atgyweirio, yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel. Mae gan y bobl eu hystafelloedd eu hunain sy'n bersonol iddynt ac mae ardaloedd cymunedol ar gael sy'n darparu lle i'r bobl ymlacio neu gymryd rhan mewn gweithgareddau.

## Llesiant

Caiff y bobl eu trin ag urddas a pharch. Gwelsom y gweithwyr gofal yn rhyngweithio â'r bobl mewn modd cynnes a chyfeillgar. Cawsom adborth cadarnhaol gan gynrychiolwyr y bobl a ddywedodd wrthym eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth a ddarperir. Dywedodd un cynrychiolydd, *“They go above and beyond. They do everything they can to support my son, they buy him Christmas and birthday presents. They treat him like family”.*

Mae'r bobl yn cael cynnig dewisiadau dyddiol a chânt eu cefnogi i wneud y pethau y maent yn eu mwynhau. Gwelsom fod y gwasanaeth yn ymgynghori â'r bobl er mwyn nodi eu hoff weithgareddau. Mae cynlluniau cymorth manwl ar waith ar gyfer pob gweithgaredd y mae'r bobl yn cymryd rhan ynddo. Yn ogystal â darparu gofal preswyl, mae'r darparwr hefyd yn rhedeg gwasanaeth dydd lle gall y bobl gymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp neu weithio tuag at gyflawni cymwysterau achrededig.

Mae amgylchedd a gaiff ei gynnal a'i gadw'n dda yn helpu i gefnogi llesiant y bobl. Mae pob rhan o'r cartref yn lân ac yn gyfforddus gyda décor a dodrefn priodol. Mae'r archwiliadau iechyd a diogelwch a gaiff eu cynnal yn rheolaidd yn nodi peryglon posibl, ac mae rhaglen barhaus o waith cynnal a chadw ar waith sy'n sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel.

Mae mesurau ar waith sy'n amddiffyn y bobl rhag niwed a chamdriniaeth. Mae yno bolisi diogelu sy'n cyd-fynd â Gweithdrefnau Diogelu Cymru. Mae'r gweithwyr gofal yn cael hyfforddiant ar ddiogelu ac maent yn hyderus yn eu gallu i godi pryderon. Mae'r asesiadau risg a'r cynlluniau rheoli manwl yn llywio'r gweithwyr gofal ar y ffyrdd gorau o gadw'r bobl yn ddiogel.

## Gofal a Chymorth

Mae'r gofal a'r cymorth a ddarperir yn canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae hyn yn golygu eu bod wedi'u teilwra at anghenion a dewisiadau unigol y bobl. Mae safon y gofal a'r cymorth a ddarperir yn dda iawn. Mae'r gweithwyr gofal yn sylwgar ac yn ymateb i'r bobl ac maent yn darparu lefelau priodol o anogaeth a chymorth. Gwelsom y gweithwyr gofal yn rhyngweithio â'r bobl, gan ddangos cynhesrwydd a thosturi gwirioneddol. Caiff y bobl eu hannog i wneud dewisiadau ac mae amrywiaeth eang o weithgareddau y maent yn eu mwynhau ar gael iddynt. Mae'r cynllunwyr gweithgareddau yn dangos y gweithgareddau y mae'r bobl yn cymryd rhan ynddynt bob dydd. Maent yn dangos bod y bobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden yn ogystal â chwblhau tasgau domestig yn y cartref. Ymgynghorir â'r bobl am y gweithgareddau y maent yn cymryd rhan ynddynt yn ystod cyfarfodydd misol y preswylwyr. Caiff y cynllunwyr gweithgareddau eu diweddaru yn dilyn y cyfarfodydd hyn os bydd unigolyn yn penderfynu ei fod am roi cynnig ar rywbeth newydd. Mae'r gwasanaeth yn mabwysiadu dulliau rhagorol o gyfathrebu â'r bobl sy'n cael anhawster cyfathrebu. Gwelsom fod y system cyfathrebu cyfnewid lluniau (PECS) yn cael ei defnyddio yng nghyfarfodydd misol y preswylwyr er mwyn casglu barn y bobl.

Mae gan y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth gynlluniau personol sy'n cynnwys gwybodaeth helaeth am y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt. Mae'r cynlluniau personol yn glir, yn gryno ac yn disgrifio'r ffyrdd gorau o gefnogi'r bobl er mwyn cyflawni eu canlyniadau personol. Mae'r cynlluniau personol hefyd yn cynnwys lefel uchel o wybodaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn sy'n hysbysu'r gweithwyr gofal o hanes personol y bobl, eu hoff bethau a'u cas bethau a'u dulliau cyfathrebu. Caiff cynlluniau arbenigol, megis cynlluniau cymorth ymddygiad cadarnhaol, eu llunio gan ddefnyddio dull tîm amlddisgyblaethol, sy'n nodi dulliau rhagweithiol o reoli ymddygiadau heriol. Mae asesiadau risg ar waith sy'n cefnogi'r bobl i gymryd risgiau cadarnhaol a'u cadw'n ddiogel wrth wneud hynny. Caiff y cynlluniau personol eu hadolygu bob tri mis i sicrhau bod y wybodaeth yn parhau'n gyfredol. Yn ogystal â hyn, cynhelir adolygiad gan y tîm amlddisgyblaethol bob blwyddyn i ystyried pecynnau gofal cyflawn y bobl.

Gall y bobl gael gafael ar weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol er mwyn eu helpu i gynnal eu hiechyd a'u llesiant. Mae anghenion iechyd y bobl wedi cael eu cofnodi yn eu cynlluniau personol. Mae cynlluniau arbenigol ar waith er mwyn helpu i reoli anghenion iechyd penodol. Er enghraifft, gwelsom broffiliau epilepsi a oedd yn cynnwys gwybodaeth unigol ar y ffordd orau o gefnogi unigolyn pe bai'n dioddef trawiad epileptig. Gwelsom dystiolaeth bod atgyfeiriadau wedi cael eu gwneud at ymarferwyr iechyd allanol, gan gynnwys Meddygon Teulu, Deintyddion a Nyrsys Arbenigol. Mae'r gweithwyr gofal yn cefnogi'r bobl i fynychu apwyntiadau rheolaidd yn ogystal â cheisio adborth ac arweiniad gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol os byddent yn nodi pryderon. Mae systemau ar waith ar gyfer rheoli a storio meddyginiaethau. Caiff meddyginiaeth ei storio'n ddiogel. Mae gan bob unigolyn gynllun cymorth meddyginiaeth. Mae'r gweithwyr gofal yn cael hyfforddiant ar feddyginiaeth ac mae'r archwiliadau meddyginiaeth a gaiff eu cynnal yn aml yn helpu i nodi unrhyw broblemau a mynd i'r afael â nhw. Gwnaethom arsylwi'r arferion rhoi meddyginiaeth a gwelsom nad oedd meddyginiaeth fel sy'n ofynnol (PRN) yn cael ei rhoi yn unol â'r

canllawiau a nodir yn y cynlluniau personol bob amser. Gwnaethom drafod hyn â'r tîm rheoli a roddodd sicrwydd i ni y byddai'r mater yn cael ei ddatrys.

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd glân a chyfforddus. Mae'r safle a'r cyfleusterau yn addas ar gyfer y bobl sy'n byw yn y cartref. Mae ystafelloedd y bobl wedi'u personoli yn unol â'u dewisiadau ac mae ganddynt gyfleusterau en-suite. Mae'r ardaloedd cymunedol wedi'u dodrefnu a'u haddurno'n addas. Mae gardd a gaiff ei chynnal a'i chadw'n dda ar gael gydag ardaloedd i eistedd. Gall y bobl ddefnyddio'r ardal hon i ymlacio neu i gymryd rhan mewn gweithgareddau. Mae ystafell weithgareddau ddynodedig ar gael hefyd a gaiff ei defnyddio'n aml gan y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Dyfarnwyd sgôr o bedwar i'r gegin gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, sy'n golygu bod y safonau hylendid yn 'dda'. Mae'r gweithwyr gofal yn dilyn amserlenni glanhau i sicrhau y cynhelir safonau glendid a hylendid uchel.

Mae'r bobl yn cael budd o amgylchedd sy'n ddiogel. Mae yna dîm cynnal a chadw sy'n goruchwylio'r ffordd y caiff y cartref ei gynnal a'i gadw o ddydd i ddydd yn dda. Rhoddir gwybod i'r tîm cynnal a chadw am unrhyw ddiffygion neu beryglon posibl drwy system ar-lein er mwyn iddynt weithredu arnynt. Mae'r tîm cynnal a chadw yn cynnal profion rheolaidd ar y systemau, megis larymau tân a goleuadau argyfwng, er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio'n iawn o hyd. Mae digon o le storio ar gael yn y cartref a chaiff sylweddau peryglus i iechyd eu storio'n ddiogel yn unol â'r canllawiau statudol perthnasol. Mae tystysgrif diogelwch gyfredol ar waith ar gyfer cyfleustodau a nodweddion diogelwch tân. Mae gan bob unigolyn sy'n byw yn y cartref gynllun personol ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfwng. Mae'r dogfennau hyn yn cynnwys gwybodaeth am y ffordd fwyaf effeithlon o helpu'r bobl i adael yr adeilad mewn argyfwng. Mae'r bobl yn ddiogel rhag unrhyw fynediad heb awdurdod. Rhaid i bob ymwelydd lofnodi wrth gyrraedd a gadael y cartref.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae trefniadau llywodraethu cryf yn helpu i weithredu'r gwasanaeth drwy sicrhau y caiff gofal a chymorth o ansawdd eu darparu. Mae Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn goruchwylio'r cartref yn effeithiol ac i gefnogi'r tîm rheoli i redeg y cartref o ddydd i ddydd. Gwelsom dystiolaeth bod yr Unigolyn Cyfrifol yn cyfarfod â'r staff a'r bobl sy'n derbyn cymorth i gasglu eu barn ar y gwasanaeth er mwyn helpu i lywio gwelliannau. Cwblheir adolygiadau o ansawdd y gofal bob chwe mis a chaiff adroddiad ei gyhoeddi. Gwnaethom edrych ar yr adroddiadau ar ansawdd y gofal diweddaraf a gwelsom eu bod yn gynhwysfawr, yn tynnu sylw at yr hyn y mae'r gwasanaeth yn ei wneud yn dda ac yn nodi'r meysydd lle y gallai eu gwella. Gwelsom fod archwiliadau rheolaidd yn cael eu cwblhau er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn gweithredu'n unol â'r rheoliadau.

Caiff y gweithwyr gofal eu recriwtio'n ddiogel a'u hyfforddi i ddiwallu anghenion y bobl y maent yn eu cefnogi. Mae'r gwasanaeth yn cynnal yr holl wiriadau cyn cyflogi er mwyn sicrhau bod y gweithwyr gofal yn addas i weithio gyda phobl sy'n agored i niwed. Pan fydd gweithwyr gofal yn dechrau eu cyflogaeth, maent yn cwblhau cyfnod sefydlu strwythuredig ac yn cysgodi aelodau profiadol o'r tîm. Yn dilyn y cyfnod sefydlu cychwynnol, gall y gweithwyr gofal ymgymryd â rhaglen hyfforddiant a chyfleoedd datblygu parhaus er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n ddigon medrus. Gwelsom fod pob un o'r gweithwyr gofal wedi'u cofrestru â rheoleiddiwr y gweithlu, sef Gofal Cymdeithasol Cymru. Gwneir hyn er mwyn sicrhau bod y gweithwyr gofal yn meddu ar y sgiliau a'r cymwysterau sy'n ofynnol i weithio yn y sector gofal.

Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym fod y tîm rheoli yn gefnogol. Gwelsom fod y gweithwyr gofal yn cael eu goruchwylio bob tri mis ac wedi cael arfarniad blynyddol. Mae'r cymorth ffurfiol hwn yn rhoi cyfle i'r gweithwyr gofal drafod eu gwaith, myfyrio ar eu perfformiad a gosod eu targedau datblygu. Yn ogystal â hyn, caiff cyfarfodydd tîm rheolaidd eu cynnal lle trafodir y materion gweithredol a'r cymorth y mae'r bobl yn ei gael.

Mae gwybodaeth sy'n disgrifio'r gwasanaeth ar gael i'r bobl ei gweld. Ceir datganiad o ddiben a chanllaw i ddefnyddwyr. Mae'r ddwy ddogfen yn fanwl, yn rhoi trosolwg o ddarpariaeth y gwasanaeth ac yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol, gan gynnwys y weithdrefn gwyno. Mae'r ddwy ddogfen ar gael mewn amrywiaeth o fformatau a chânt eu hadolygu a'u diweddaru pan fo angen.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 10/04/2024